| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cynghorydd Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant |
| **Dyddiad** | 30/08/2023 |
| **Swyddog Arweiniol** | Tony Ward, Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Amgylchedd a'r Economi |
| **Awduron yr Adroddiad** | Simon Lammond, Rheolwr y Gwasanaethau Gwastraff a Lowri Roberts, Rheolwr Prosiect |
| **Teitl** | Polisi Casgliadau Gwastraff Diweddaraf 2023 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn argymell cymeradwyo Polisi Casgliadau Gwastraff Diweddaraf 2023 ar ôl ymgynghori â'r Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu ym mis Mehefin 2023.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu gwybodaeth a cheisio cefnogaeth yr Aelod Arweiniol ar gyfer y Polisi Casgliadau Gwastraff diweddaraf, sydd ynghlwm yn Atodiad 1.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod yr Aelod Arweiniol yn cymeradwyo'r Polisi Casgliadau Gwastraff diweddaraf ar gyfer y gwasanaeth presennol a'r gwasanaeth newydd. Mae Atodiad 1 yn nodi manylion polisi casgliadau gwastraff y gwasanaeth presennol (Rhan 1) a pholisi casgliadau gwastraff y gwasanaeth newydd (Rhan 2).

3.2. Bod yr Aelod Arweiniol yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 2).

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Polisi Casgliadau Gwastraff diweddaraf wedi'i lunio gan y gwasanaeth Gwastraff. Mae'r polisi ar gyfer y gwasanaeth presennol wedi'i ddiweddaru er mwyn ceisio eglurhad ynghylch yr hyn mae'r gwasanaeth yn ei gynnig. Yn ogystal, mae wedi'i ddiweddaru er mwyn adlewyrchu'r model gwasanaeth newydd, nad yw wedi cael ei gyflwyno eto. Mae'r Polisi wedi'i rannu rhwng y gwasanaeth presennol a'r gwasanaeth newydd.

4.2. Y prif newidiadau i'r polisi cyfredol yw cryfhau cyfrifoldebau / eglurder y polisi a newidiadau mawr i wasanaethau, sef:

a) Mae Adran 1a ac 1b yn darparu gwybodaeth am amlder y gwasanaeth casgliadau ailgylchu newydd a deunyddiau nad oes modd eu hailgylchu a'r math o gynwysyddion a ddefnyddir. Mae Adran 2 yn ymwneud â chasgliadau amgen ar gyfer darpariaeth gwasanaeth safonol anaddas. Mae Adran 3 yn ymwneud â'r biniau cymunedol ar gyfer gwastraff swmpus.

b) Mae Adran 4 yn egluro ei fod yn ofyniad cyfreithiol yng Nghymru i ailgylchu gwastraff bwyd (daw i rym o fis Hydref 2023). Mae Adran 5 yn ymwneud â gwasanaethau casglu batris a chyfarpar trydanol ac electronig gwastraff.

c) Ategir cyflwyniad Adran 7 a ffyrdd preifat sydd heb eu mabwysiadu yn Adran 8 o ran yr hyn sy'n dderbyniol ac mae'n nodi'r mannau casglu yn ffurfiol ar gyfer eiddo â mynediad cyfyngedig.

d) Mae Adran 18 yn rhoi eglurhad ynghylch y gwasanaeth Gwastraff Hylendid nad yw'r Heintus o 2024 ymlaen.

e) Mae Adran 22 yn amlinellu'r newidiadau i'r gwasanaeth casglu gwastraff swmpus.

4.3. Mae'r polisi diweddaraf wedi'i ddosbarthu i'r fforymau canlynol:

i. Bwrdd Prosiect Ailfodelu'r Gwasanaeth Gwastraff
ii. Y Cabinet
iii. Pwyllgor Archwilio Cymunedau

Mae'r polisi wedi'i ddiweddaru gyda mân newidiadau a phwyntiau eglurhaol yn dilyn yr adborth a dderbyniwyd yng Nghyfarfod Briffio'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Cymunedau.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae cyflwyno'r gwasanaeth gwastraff newydd (yn cynnwys y polisi diweddaraf) yn gysylltiedig â'r flaenoriaeth gorfforaethol 'Sir Ddinbych mwy Gwyrdd'. Mae hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r thema i wella cyfraddau ailgylchu a lleihau gwastraff trwy gyflwyno'r system ailgylchu ymyl palmant newydd o 2024 ymlaen. Bydd hyn yn ategu ymrwymiad Sir Ddinbych i fod yn sefydliad Di-garbon Net erbyn 2030.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gost uniongyrchol yn gysylltiedig â'r Polisi Casgliadau Gwastraff.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Gweler Atodiad 2 am ragor o fanylion am yr Asesiad o Effaith ar Les a gynhaliwyd ar gyfer y broses gyffredinol o Ailfodelu'r Gwasanaeth Gwastraff, ac mae cyflwyno'r Polisi Casgliadau Gwastraff diweddaraf yn rhan allweddol ohono. Mae canlyniad terfynol yr Asesiad o'r Effaith ar Les yn bositif.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r Bwrdd Prosiect wedi'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Yr Amgylchedd a'r Economi (sy'n gweithredu fel Swyddog Gweithredol Prosiectau) yn cyfarfod tua unwaith y mis, ac ym mhob Bwrdd Prosiect ceir y wybodaeth ddiweddaraf am risgiau a chyflwynir y sefyllfa bresennol o ran costau i'w hadolygu a'u gweithredu fel bo'r angen. Rhoddwyd cyfle i'r Bwrdd wneud sylwadau ar y Polisi Casgliadau Gwastraff.

8.2. Cafodd y Polisi ei ddosbarthu i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Mai / Mehefin 2023. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau wneud sylwadau ar y polisi a bydd cyfle arall ganddynt i wneud hynny yn ystod y broses penderfyniadau dirprwyedig.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Er nad oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o'r adroddiad hwn, mae'r achos busnes ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mawr mewn gwastraff yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn seiliedig ar oblygiadau refeniw'r model gwasanaeth newydd, ac mae'r polisi wedi cael ei ddiweddaru ar gyfer hyn, fel y nodir yn adran 4.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Y risg y gallai'r cyhoedd brofi newidiadau yn eu gwasanaeth casglu gwastraff gan arwain at rywfaint o wrthwynebiad.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Pwerau a ddirprwywyd i'r Aelod Arweiniol fel y nodir yn Atodiad 2(b) Adran 13 Cynllun Dirprwyo Aelodau yng Nghyfansoddiad y Cyngor.